

# CYSTADLEUAETH STORI FER

TALIESIN A BBC RADIO CYMRU

---

GWOBR: £1000



DYDDIAD CAU

Dydd Llun 12 Tachwedd 2012

PANEL BEIRNIADU

**Mihangel Morgan**

Cadeirydd y panel

**Lowri Davies**

Golygydd Rhaglenni Cyffredinol

BBC Radio Cymru

**Sian Melangell Dafydd**

Golygydd Cylchgrawn Taliesin

**Angharad Elen**

Golygydd Cylchgrawn Taliesin

Dyma gyfle gwych i chi ennill £1000, gweld eich gwaith mewn print a'i glywed yn cael ei ddarlledu ar y radio.



Fe fydd y gwaith o feirniadu mewn dwylo saff hefyd gyda neb llai na **Mihangel Morgan** yn Cadeirio'r panel beirniadu.

Am beth fydd y beirniaid yn edrych tybed?

“Y stori fer yw'r genre llenyddol sylfaenol, bara ein llenyddiaeth”, meddai Mihangel Morgan. “Fe ddisgleiriodd y stori yn y gorffennol yng ngwaith y meistri fel Kate Roberts, D.J. Williams a John Gwilym Jones. Ac mae'n dal i ffynnu yn nwylo'r hen lawiau fel Bobi Jones ac Eigra Lewis Roberts a rhai diweddarach fel Tony Bianchi, Manon Rhys a Fflur Dafydd. Wrth feirniadu'r gystadleuaeth hon byddaf yn dod ati gyda meddwl cwbl agored, yn barod i dderbyn pob math o storïau.”

Felly taniwch y gliniadur neu estynnwch am y feiro; dyma'ch cyfle chi i adrodd y stori.

Ydych chi eisiau ysbrydoliaeth? Beth am ddarllen straeon byrrion yn rhai o ôl-rifynnau Taliesin neu danysgrifio o'r newydd? I brynu ôl-rifynnau ac i danysgrifio cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru.

**LLENYDDIAETH CYMRU**

Prif Weithredwr: Lleucu Siencyn

029 2047 2266 [post@llynyddiaethcymru.org](mailto:post@llynyddiaethcymru.org)

## SUT I YMGEISIO



Mae'r amodau yn syml: un stori gaiff pob person ei anfon i'r gystadleuaeth, mae'n rhaid i'r stori fod yn Gymraeg ac mae'n rhaid iddi fod o dan 5,000 o eiriau. Does dim testun wedi ei osod felly mae'r stori'n llwyr yn eich dwylo (a'ch dychymyg chi).

Anfon ar ebost:

- Dylid anfon y stori ar ffurf Microsoft Word (.doc neu .docx) gyda theitl y stori a ffugenw fel enw'r ffeil e.e Bwni Wen gan Y ddeilen
- Dylid anfon y ffurflen gais ddigidol gyda manylion cyswllt hefyd (ar gael o wefan BBC Radio Cymru)
- Dylai pob ymgais fod wedi ei deipio mewn font Arial 12pt du gyda gofod dwbl rhwng y llinellau
- Dylid anfon y ceisiadau at [storifer@bbc.co.uk](mailto:storifer@bbc.co.uk) cyn 5.00 pm ddydd Llun 12 Tachwedd 2012

Anfon trwy'r post:

- Dylid anfon dau gopi o'r stori brintiedig gyda theitl y stori a ffugenw wedi ei nodi yn glir ar dop y dudalen gyntaf
- Dylid anfon y ffurflen gais gyda manylion cyswllt hefyd mewn amlen dan sêl
- Dylid anfon y ceisiadau at Cystadleuaeth Stori Fer, Radio Cymru (Yst 2001), BBC, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YQ cyn 5.00 pm ddydd Llun 12 Tachwedd 2012

Gellir dod o hyd i'r Telerau a'r Amodau llawn ar wefan Radio Cymru ac ar wefan Llenyddiaeth Cymru. Dylid darllen y Telerau a'r Amodau llawn yn drylwyr i wneud yn siŵr bod awdur a'i waith yn gymwys i gystadlu. Drwy anfon stori rydych yn derbyn y Telerau a'r Amodau yn llawn.

Am ragor o wybodaeth am y gystadleuaeth cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru.





## FFURFLEN GAIS

Teitl y stori

---

Ffug enw

---

Enw

---

Cyfeiriad

---

---

---

Cod post

---

Rhif ffôn

---

Cyfeiriad ebost

---



CYNGOR LLYFRAU CYMRU  
WELSH BOOKS COUNCIL



TALIESIN